Department for Energy Security & Net Zero

# Arfarniad o Asesiad Rheoliadau Cynaliadwyedd a Chynefinoedd o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Newydd ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-7)

## Adroddiad ar Fethodoleg y Rheoliadau Cynefinoedd

Ionawr 2024

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol - Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys

Rhagymadrodd 4
Crynodeb Gweithredol 5
1. Cyflwyniad 7
1.1. Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear, EN-6 7
1.2. Pwrpas a chefndir yr adroddiad hwn 8
2. Dull Asesu Rheoliadau Cynefinoedd 12
2.1. Cyfraith a Pholisi Perthnasol 12
2.2. Trosolwg o'r Broses ARhC 13
3. Sgrinio'r ARhC 15
3.1. Cwmpasu Safleoedd Cynefinoedd ar gyfer eu Sgrinio 15
3.2. Dull gweithredu yng Ngham 1 – Sgrinio 16
4. Asesiad Priodol 21
4.1 Dull gweithredu ar gyfer Cam 2 – Asesiad Priodol 21
4.2. Cyfanrwydd Safle Cynefin 21
4.3. Asesiad Cyfunol 22
4.4. Mesurau Lliniaru 23
5. Rhanddirymiadau 24
5.1. Dull o Asesu Atebion Eraill 24
Paratoi Adroddiadau ARhC y DPC 27

# Rhagymadrodd

Mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn cynhyrchu Datganiad Polisi Cenedlaethol (DPC) newydd ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-7).

Dyma Adroddiad Methodoleg yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) sy'n rhagflaenu'r broses o gynhyrchu EN-7. Mae'n nodi'n fanwl y dull gweithredu ar gyfer yr ARhC yng ngoleuni'r gofynion cyfreithiol, cyfraith achosion berthnasol a'r broses ymgynghori. Bydd y DPC newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear yn cael ei asesu heb wybodaeth ddaearyddol, nes y ceir cadarnhad o'r dull a ddefnyddir i leoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Felly, ar hyn o bryd, bydd yn cael ei asesu fel cynllun strategol lefel uchel yn unig.

Bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal ar yr Adroddiad Methodoleg hwn cyn cynhyrchu'r DPC drafft. Bydd adroddiad gwirioneddol yr ARhC, a fydd yn dilyn dull gweithredu'r ARhC a nodir yn yr Adroddiad Methodoleg, yn cyd-fynd â'r DPC newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear newydd drwy'r broses ymgynghori statudol.

# Crynodeb Gweithredol

Dyma Adroddiad Methodoleg yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) sy'n gosod sail y dull gweithredu o ran yr ARhC ar EN-7, y Datganiad Polisi Cenedlaethol (DPC) newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear. Bydd EN-7 yn ymdrin â datblygu seilwaith ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear newydd a fydd yn cael ei ddefnyddio ar ôl 2025 ac mae'n rhan o gyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg o dan y DPC cyffredinol ar gyfer Ynni, EN-1.

Yng Nghymru a Lloegr, o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)[1] (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'), mae'n ofynnol cynnal 'Asesiad Priodol' o gynlluniau neu brosiectau arfaethedig nad ydynt yn angenrheidiol ar gyfer rheoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), ond sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar un neu fwy o ACA neu AGA naill ai'n unigol, neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae angen asesiad pan allai cynllun neu brosiect arwain at effaith sylweddol ar Ardal Gadwraeth Arbennig neu Ardal Warchodaeth Arbennig. Cynlluniwyd y safleoedd Rheoliadau Cynefinoedd hyn yn wreiddiol o dan y cyfarwyddebau Ewropeaidd a ganlyn:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)[2], a ddynodwyd yn wreiddiol o dan Gyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 92/43/EEC (y cyfeirir ato fel y Gyfarwyddeb Cynefinoedd); ac,
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), a ddynodwyd yn wreiddiol o dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC (sy'n codeiddio Cyfarwyddeb 79/409/EEC)) ar gyfer rhywogaethau o adar mudol sy'n brin, yn agored i niwed ac sydd i'w cael yn rheolaidd a gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol.

Fel mater o bolisi'r llywodraeth[3] mae hyn hefyd yn cynnwys:

- Safleoedd Ramsar rhestredig neu arfaethedig (safleoedd gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol, fel y'u dynodir o dan Gonfensiwn Ramsar 1971);
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl;
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl; ac,
- Unrhyw safle a nodwyd, neu sydd ei angen, fel mesurau cydbwyso ar gyfer effeithiau niweidiol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl a safleoedd Ramsar rhestredig neu arfaethedig.

O hyn allan, cyfeirir at yr holl safleoedd uchod fel Safleoedd Cynefinoedd[4].

[1] Yn dilyn y newidiadau y gwnaeth Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn y DU bellach yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr UE, ond maent yn rhan o rwydwaith safleoedd cenedlaethol y DU. Cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel Safleoedd Cynefinoedd (gweler hefyd troednodyn 4 isod). Dylid nodi, gan fod y DU wedi gadael yr UE, fod y Rheoliadau Cynefinoedd yn gyfraith yr UE a ddargedwir.

[2] Mae'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Bwys i'r Gymuned (SBG) posibl. Ar ôl diwygio'r Rheoliadau Cynefinoedd, mae cyfeiriad at Safleoedd o Bwys i'r Gymuned yn cynnwys cyfeiriad at safle o bwysigrwydd cenedlaethol a ddynodwyd o dan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cael ei throsi ac yn cael ei chadw.

[3] Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2021) Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF). Paragraff 181.

[4] Defnyddir y term 'Safleoedd Cynefinoedd' yn lle 'Safleoedd Ewropeaidd' drwy gydol y ddogfen hon. Er bod y safleoedd yn deillio'n wreiddiol o gyfarwyddebau Ewropeaidd ac y cyfeiriwyd atynt fel hynny'n flaenorol, ar ôl i'r DU adael yr UE a'r ddeddfwriaeth ddiwygio sy'n golygu bod Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig bellach yn rhan o rwydwaith safleoedd cenedlaethol, ystyrir nad yw bellach yn berthnasol i ddefnyddio 'Safleoedd Ewropeaidd'. Dim ond pan fydd yn bresennol mewn dyfyniad y bydd y term yn aros yr un fath.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal ARhC ar lefel strategol ar gyfer y DPC newydd ar gynhyrchu pŵer niwclear, EN-7. Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd, mae pob Datganiad Polisi Cenedlaethol yn 'gynllun', ac felly mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r un a ddefnyddir ar gyfer 'cynlluniau' eraill. Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn dileu'r gofyniad i gynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd manwl ar lefel prosiectau yn ystod y cam cydsyniad datblygu. Ar hyn o bryd, mae'r fethodoleg a amlinellir ar gyfer DPC nad yw'n nodi lleoliadau, h.y. dim safleoedd, dyraniadau nac unrhyw gydran ofodol benodol. Er bod y DPC presennol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear (EN-6) yn cynnwys lleoliadau penodol ar gyfer datblygiadau ar raddfa Gigawat, nid yw'n fwriad eu cynnwys yn y DPC newydd ac mae'r meini prawf lleoli yn cael eu hadolygu. Ar ben hynny, ni fydd lleoliadau arfaethedig penodol ychwaith ar gyfer y technolegau niwclear ychwanegol a fydd yn cael eu cyflwyno o'r newydd i'r DPC (adweithyddion modiwlaidd fel y trafodir yn Adran 1.1.6 isod); mae hyd yn fwriadol er mwyn cynnig hyblygrwydd o ran eu cyflenwi a'u defnyddio. Felly, bydd yr asesiad yn canolbwyntio ar gynnwys y polisi yn y ddogfen, gan gyfeirio at yr ARhC presennol ar gyfer y DPC cyffredinol ar ynni (EN-1) lle bo angen. Mae'r llywodraeth yn ymgynghori ar y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer polisi lleoli darpariaeth cynhyrchu pŵer niwclear newydd, a fydd yn sail i EN-7; Datganiadau Polisi Cenedlaethol penodol newydd sy'n nodi'r meini prawf lleoli ar gyfer pob technoleg niwclear bosibl. Gan fod ansicrwydd ynglŷn â'r amserlen ar gyfer rhyddhau'r polisi lleoli, caiff ARhC EN-7 ei ddatblygu heb leoliadau daearyddol penodol ar gyfer safleoedd niwclear. Gallai hyn newid pan gyhoeddir EN-7, ac, yn dibynnu ar gynnydd yr ARhC, gellir adolygu a ddylid eu cynnwys bryd hynny.

Mae'r fethodoleg yn amlinellu tri cham cydnabyddedig yr ARhC a'r gofynion ar bob cam. Bydd yr ARhC yn cyd-fynd ag EN-6 drwy ymgynghoriad statudol.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear, EN-6

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn berthnasol i seilwaith a ddiffinnir fel "Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol" yn Neddf Cynllunio 2008. Mae chwe DPC sy'n berthnasol i ynni ac maent yn nodi polisi'r llywodraeth ar gyfer darparu seilwaith ynni mawr. Mae EN-6 yn dod o dan DPC cyffredinol ar Ynni (EN-1), ar y cyd â phedwar DPC arall sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg. Dyma'r gyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol:

- DPC Cyffredinol ar Ynni (EN-1);
- DPC ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol (EN-2);
- DPC ar gyfer Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy (EN-3);
- DPC ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4);
- DPC ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5); a,
- DPC ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6).

Gyda'i gilydd, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau cydsyniad datblygu ar geisiadau am seilwaith ynni newydd. Y DPC presennol ar bŵer niwclear (EN-6), o'i ystyried ar y cyd ag EN-1, sy'n darparu'r brif sail ar gyfer penderfyniadau a wneir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar brosiectau niwclear y gellir eu rhoi ar waith erbyn diwedd 2025.

Yn 2022/23, adolygwyd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer ynni EN-1 i EN-5 a'u diwygio lle bo angen. Ochr yn ochr â'r diwygiad hwn cafwyd adroddiadau Arfarniad Cynaliadwyedd ac ARhC i asesu a oedd gan unrhyw newidiadau a wnaed i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol oblygiadau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Cyflwynwyd yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r ARhC ochr yn ochr â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriad statudol. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ail ymgynghoriad cyhoeddus ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig ar ynni. Bydd y llywodraeth yn ystyried y sylwadau a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad hwn a bydd angen i'r Senedd gymeradwyo'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol cyn iddynt gael eu dynodi'n derfynol.

Mae'r EN-6 presennol yn rhestru wyth safle yr ystyrir a allai fod yn addas ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar raddfa Gigawat. Fodd bynnag, o ystyried y dyddiad cau i'w roi ar waith yn 2025, nid yw'r DPC niwclear presennol mewn grym yn llawn bellach gan na ellid cyflwyno unrhyw bŵer niwclear newydd yn yr amserlen sy'n weddill, er ei fod yn dal yn effeithiol ar gyfer diwygiadau i Orchmynion Cydsyniad Datblygu a roddir o dan EN-6 ac mae'n ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw benderfyniadau cynllunio ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025.

Ymgynghorodd y llywodraeth yn flaenorol ar y meini prawf lleoli a'r broses ar gyfer DPC annibynnol newydd ar gyfer pŵer niwclear yn 2017/18. Ers hynny, mae safbwynt y llywodraeth

ar niwclear wedi esblygu ac mae wedi'i nodi yn y Cynllun 10 Pwynt[5], y Papur Gwyn ar Ynni[6] yn 2020, Strategaeth Diogelu Ffynonellau Ynni ar gyfer Busnes[7] yn 2022 a Phweru Prydain – Cynllun Diogelu Ffynonellau Ynni yn 2023[8]. Bydd DPC newydd ar gynhyrchu pŵer niwclear yn cael ei osod yng nghyd-destun y datblygiadau polisi hyn a'r achos yn nodi'r angen ar gyfer ynni niwclear fel yr amlinellir yn EN-1.

Ar y cam hwn yn y broses o ddatblygu'r DPC newydd ar gynhyrchu pŵer niwclear, nid yw'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn bwriadu rhestru safleoedd penodol. Yn hytrach, mae'n cynnig mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer pob DPC arall ym maes technoleg ynni (EN-2 i EN-5), er y gallai'r dull o leoli newid yn unol â phenderfyniadau polisi ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn y dyfodol. Cynigir hefyd y bydd y DPC newydd yn dileu'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu a nodwyd yn y DPC blaenorol a bydd yn nodi'r polisi ar gyfer Adweithyddion Modwlar Bach ac Adweithyddion Modwlar Datblygedig ochr yn ochr â gorsafoedd pŵer niwclear dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd. Nid yw'n fwriad cynnwys Adweithyddion Modwlar Datblygedig sydd ond yn cynhyrchu gwres neu danwydd synthetig fel hydrogen yn y fersiwn hwn o'r DPC oherwydd bod angen deddfwriaeth i newid Deddf Cynllunio 2008. Bydd y DPC yn ystyried yr Adweithyddion Modwlar Datblygedig hynny sy'n cynhyrchu gwres a thrydan (cyfun). Yn yr un modd, mae'r llywodraeth yn bwriadu cynnwys pob prosiect ymholltiad niwclear yn Lloegr o fewn y drefn cynllunio seilwaith cenedlaethol, ac ar hyn o bryd dim ond gorsafoedd pŵer niwclear sydd ag allbwn o 50MW sy'n cael eu hystyried yn 'Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Yng Nghymru, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi cydsyniad i brosiectau ynni sydd â chapasiti cynhyrchu o rhwng 10MW a 350MW.

O ran natur agored y DPC, mae pryder y gallai hyn roi baich mawr ar Awdurdodau Cynllunio. Dylid nodi hefyd na fydd ymasiad niwclear yn cael ei gynnwys yn benodol yn y DPC hwn gan fod bwriad i fynd i'r afael â hyn mewn DPC yn y dyfodol.

## 1.2. Pwrpas a chefndir yr adroddiad hwn

Adroddiad methodoleg yr ARhC yw'r adroddiad hwn ac mae'n amlinellu'r dull a ddefnyddir wrth gynhyrchu'r ARhC ar gyfer cynlluniau newydd i gynhyrchu pŵer niwclear ac asesu'r cynnwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd),[9], y 'Rheoliadau Cynefinoedd'.

Mae'r ddyletswydd i gynnal yr ARhC yn ymwneud â'r DPC ar bŵer niwclear fel 'cynllun' strategol. Mae'r DPC yn darparu fframwaith strategol lle cynhelir asesiad lefel 'prosiect' dilynol yn ôl yr angen, pan gynigir prosiectau unigol.

Ni fydd y DPC yn cynnwys unrhyw safleoedd, lleoliadau na chynigion gofodol eraill ac, felly, asesiad o gynnwys y polisi yn unig yw'r ARhC. Mae iddo natur lefel uchel a strategol, ac nid

[5] https://www.gov.uk/government/publications/the-ten-point-plan-for-a-green-industrial-revolution/title
[6] https://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future-accessible-html-version
[7] https://www.gov.uk/government/publications/british-energy-security-strategy/british-energy-security-strategy
[8] https://www.gov.uk/government/publications/powering-up-britain/powering-up-britain-energy-security-plan
[9] Yn dilyn y newidiadau y gwnaeth Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y DU bellach yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr UE, ac maent bellach yn rhan o rwydwaith safleoedd cenedlaethol y DU. Yn y ddogfen hon, cyfeirir atynt o hyd fel Safleoedd Ewropeaidd.

yw'n gyfystyr nac yn cymryd lle ARhC ar gyfer unrhyw brosiect datblygiad seilwaith niwclear a allai ddod o dan y DPC.

Swyddogaeth adroddiad yr ARhC fydd tynnu sylw at unrhyw risgiau posibl i Safleoedd Cynefinoedd drwy destun / dulliau polisi'r ddogfen DPC niwclear ei hun ac ystyried pa mor berthnasol yw effeithiau cyfunol prosiectau.

Mae'r dull hwn yn ystyried cyfraith achosion ddiweddar Ewrop a'r DU sy'n berthnasol i Safleoedd Cynefinoedd a chanllawiau cyfredol mewn perthynas â'r ARhC. Yn ôl cytundebau'r DU wrth ymadael â'r UE, mae cyfraith achosion yr UE sydd wedi siapio a dylanwadu ar broses yr ARhC hyd at 31 Rhagfyr 2021, yn dal yn berthnasol yn y DU ac yn berthnasol i'r asesiad[10] . Ar wahân i ddiwygiadau i gadw pob cam o broses yr ARhC o fewn cyfundrefn y DU, ni wnaed unrhyw newid sylfaenol i swyddogaeth a gweithrediad y Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn diwygiad gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. Felly, mae'r cyfeiriad at gyfraith achosion Ewropeaidd hyd at 31 Rhagfyr 2021 yn gydnaws â dull arfer da o ddefnyddio'r canllawiau mwyaf cyfredol sydd ar gael bob amser.

Ystyrir bod y darnau canlynol o gyfraith achosion yn berthnasol a thrafodir isod eu goblygiadau ar gyfer ARhC.

## People over Wind

Bydd yr ARhC hwn yn cael ei baratoi yn unol â chanfyddiadau cyfraith achosion perthnasol, gan gynnwys yn fwyaf arbennig dyfarniad 'People over Wind' gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU).

Datganodd y dyfarniad yn yr achos People over Wind, Peter Sweetman v Coillte Teoranta (Ebrill 2018) y dylid dehongli Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd fel rhywbeth sy'n golygu y dylid asesu mesurau lliniaru fel rhan o Asesiad Priodol ac na ddylid ei ystyried yn ystod y cam sgrinio. Mae union eiriad y dyfarniad ar y pwynt hwn fel a ganlyn:

"Erthygl 6(3)... er mwyn penderfynu a oes angen cynnal asesiad priodol, wedi hynny, o oblygiadau cynllun neu brosiect i safle dan sylw, nad yw'n briodol, yn ystod y cam sgrinio, i ystyried mesurau a fwriedir i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu'r prosiect ar y safle hwnnw."

Yng ngoleuni'r uchod, ni fydd cam Sgrinio'r ARhC yn dibynnu ar fesurau osgoi na lliniaru i ddod i gasgliadau ynghylch a allai'r DPC arwain at 'effeithiau sylweddol tebygol' ar Safleoedd Cynefinoedd, gydag unrhyw fesurau o'r fath yn cael eu hystyried yn ystod y cam Asesiad Priodol fel sy'n berthnasol.

## Holohan

Bydd yr ARhC hefyd yn ystyried dyfarniad Holohan v An Bord Pleanala (Tachwedd 2018) yn llawn a oedd yn datgan:

"Rhaid dehongli Erthygl 6(3) Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt fel ei fod yn golygu bod yn rhaid i 'asesiad priodol', ar y naill law, gatalogio'r holl fathau o gynefinoedd a rhywogaethau y gwarchodwyd y safle ar eu cyfer, ac, ar y llaw arall, nodi ac archwilio goblygiadau'r prosiect arfaethedig ar gyfer y rhywogaeth sy'n bresennol ar y safle hwnnw, ac ar gyfer y rhywogaethau

[10] Deddfwriaeth yr UE a chyfraith y DU - https://www.legislation.gov.uk/eu-legislation-and-uk-law

hynny nad ydynt wedi'u rhestru, a'r goblygiadau ar gyfer mathau o gynefinoedd a rhywogaethau y tu allan i ffiniau'r safle, cyn belled fod y goblygiadau hynny'n agored i effaith amcanion cadwraeth y safle.

Rhaid dehongli erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb 92/43 fel pe bai'n golygu bod hawl gan yr awdurdod cymwys i roi caniatâd i gynllun neu brosiect sy'n gadael y datblygwr yn rhydd i bennu paramedrau penodol sy'n ymwneud â'r cyfnod adeiladu wedi hynny, megis lleoliad y compownd adeiladu a'r llwybrau cludo, dim ond os yw'r awdurdod hwnnw'n sicr bod y cydsyniad datblygu a roddwyd yn sefydlu amodau sy'n ddigon caeth i warantu na fydd y paramedrau hynny'n effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle.

Rhaid dehongli erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb 92/43 fel pe bai'n golygu, pan fo'r awdurdod cymwys yn gwrthod y canfyddiadau mewn barn wyddonol arbenigol sy'n argymell y dylid cael gwybodaeth ychwanegol, bod rhaid i'r 'asesiad priodol' gynnwys datganiad clir a manwl o'r rhesymau sy'n gallu chwalu'r holl amheuaeth wyddonol resymol ynghylch effeithiau'r gwaith a ragwelir ar y safle dan sylw."

Rhoddir ystyriaeth i'r posibilrwydd o effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi'u rhestru fel nodweddion cymwys, yn arwain at effeithiau eilaidd ar nodweddion cymwys Safleoedd Cynefinoedd, gan gynnwys y posibilrwydd o ryngweithio a dibyniaethau cymhleth. Ar ben hynny, rhoddir ystyriaeth hefyd i'r posibilrwydd y bydd effeithiau oddi ar y safle, fel effeithiau ar dir sydd â swyddogaethau cysylltiedig, a/neu rywogaethau a chynefinoedd sydd y tu hwnt i ffiniau Safleoedd Cynefinoedd, ond a allai fod yn bwysig o ran cefnogi prosesau ecolegol y nodweddion cymwys.

## Dutch Nitrogen

Nodwyd y canlynol yn nyfarniad 2018 'Cofáperatie Mobilisation for the Environment and Verenging Leefmilieu (Dutch Nitrogen):

> *"Bydded i effeithiau cadarnhaol y gostyngiad annibynnol yn y dyddodion nitrogen ... gael eu hystyried yn yr asesiad priodol..., mae'n bwysig monitro'r gostyngiad annibynnol yn y dyddodion nitrogen ac, os bydd yn dod i'r amlwg bod y gostyngiad yn llai ffafriol na'r hyn a dybiwyd yn yr asesiad priodol, dylid gwneud addasiadau, os oes angen."*

Mae dyfarniad Dutch Nitrogen hefyd yn datgan, yn ôl cyfraith achosion blaenorol:

> *"...dim ond pan fo'n ddigon sicr y bydd mesur yn gwneud cyfraniad effeithiol at osgoi niwed i gyfanrwydd y safle dan sylw, drwy warantu y tu hwnt i bob amheuaeth resymol na fydd y cynllun neu'r prosiect dan sylw yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle hwnnw, y gellir ystyried mesur o'r fath yn yr 'asesiad priodol' yn unol ag ystyr Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd".*

Lle/os yw'n berthnasol i'r ARhC, bydd llwybrau disgwyliedig y newid sy'n gysylltiedig â'r effeithiau ar Safleoedd Cynefinoedd yn cael eu monitro a bydd angen ailasesu os nad yw'n cael ei gyflawni. Bydd yr ARhC hwn hefyd yn ystyried bodolaeth mesurau cadwraeth a/ neu ataliol dim ond os oes sicrwydd ynghylch manteision disgwyliedig y mesurau hynny ar adeg yr asesiad. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r egwyddor ragofalus p'un a fodlonir y trothwy ai peidio, bydd yr asesiad yn ystyried a yw'r risg yn debygol o fod yn sylweddol i sicrhau nad oes effaith niweidiol ar gyfanrwydd y Safleoedd Cynefinoedd.

## Strwythur yr adroddiad

Mae’r Rhagymadrodd yn nodi cyd-destun yr adroddiad ac mae’r Crynodeb Annhechnegol yn rhoi crynodeb o’r broses.  Dyma strwythur gweddill yr adroddiad:

- Mae Pennod 1 yn cyflwyno’r DPC newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear a phwrpas yr adroddiad hwn;
- Mae Pennod 2 yn nodi’r dull Asesu Rheoliadau Cynefinoedd, y gyfraith a’r polisi perthnasol a throsolwg o’r broses;
- Mae Pennod 3 yn amlinellu’r fethodoleg ar gyfer Sgrinio Cam 1, gan gynnwys cwmpasu Safleoedd Cynefinoedd ar gyfer eu sgrinio;
- Mae Pennod 4 yn amlinellu’r fethodoleg ar gyfer Asesiad Priodol Cam 2, sy’n cynnwys trafod mesurau lliniaru;
- Mae Pennod 5 yn trafod y rhanddirymiadau; atebion amgen, prawf achos Rhesymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i’r Cyhoedd a sicrhau iawndal; a,
- Mae Pennod 6 yn trafod paratoi Adroddiad ARhC y Datganiad Polisi Cenedlaethol.

# 2. Dull Asesu Rheoliadau Cynefinoedd

## 2.1. Cyfraith a Pholisi Perthnasol

Dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae angen asesiad pan allai cynllun neu brosiect arwain at effaith sylweddol ar Safle Cynefinoedd. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a ddynodwyd yn wreiddiol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a ddynodwyd yn wreiddiol o dan y Gyfarwyddeb Gwarchod Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC, sy'n cynnwys Cyfarwyddeb 79/409/EEC).

Mae'r safleoedd hyn bellach yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol ac yn y dyfodol, byddant yn cynnwys unrhyw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig newydd a fydd yn cael eu dynodi gan y DU.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i rwydwaith cenedlaethol y DU o Safleoedd Cynefinoedd yn cynnwys Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliad Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (fel y'i diwygiwyd), a elwir gyda'i gilydd yn Rheoliadau Cynefinoedd. Ar ben hynny, mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU[11] bod y broses hon yn ystyried safleoedd sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar gyfer eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (safleoedd Ramsar), gan gynnwys rhai rhestredig ac arfaethedig, a'u bod yn cael eu gwarchod yn yr un modd â safleoedd yn y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol, ynghyd ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl. O hyn allan, cyfeirir at yr holl safleoedd uchod fel Safleoedd Cynefinoedd. Ar ben hynny, mae hefyd yn cynnwys safleoedd a nodwyd, neu sydd eu hangen, fel mesurau cydbwyso ar gyfer effeithiau niweidiol ar Safleoedd Cynefinoedd.

Gall ardaloedd o dir neu fôr y tu allan i ffin Safle Cynefinoedd fod o bwys ecolegol o ran cefnogi'r poblogaethau y dynodwyd neu y dosbarthwyd y Safle Cynefinoedd ar eu cyfer, fel bod ganddynt 'swyddogaethau cysylltiedig' ac y dylid eu hystyried mewn ARhC[12].

Mae rheoliad 63 (1) o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn datgan:

> *"Cyn penderfynu ymgymryd ag, neu roi cydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer, cynllun neu brosiect sydd—*
>
> *(a) yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill), a*
>
> *(b) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli'r safle hwnnw nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny,*
>
> *mae'n rhaid i awdurdod cymwys wneud asesiad priodol o oblygiadau'r cynllun neu'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safle".*

[11] Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2021) Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF). Paragraff 181.

[12] Tyldesley, D. a Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, rhifyn Mehefin 2023 y DU: DTA Publications Limited.

Cadarnheir nad yw'r chwech DPC ynni yn gysylltiedig â rheoli unrhyw Safleoedd Cynefinoedd nac yn angenrheidiol ar gyfer eu rheoli. Felly, mae gofyniad sgrinio ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol ac, os na ellir diystyru effeithiau sylweddol tebygol, mae angen asesiad priodol.

Mae rheoliad 64 (1) o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn datgan:

> *"Os yw'r awdurdod cymwys yn fodlon, ac nad oes unrhyw atebion amgen, bod yn rhaid cyflawni'r cynllun neu'r prosiect am resymau hanfodol sydd o fudd amlwg i'r cyhoedd (a all, yn ddarostyngedig i baragraff (2), fod o natur gymdeithasol neu economaidd), gallai gytuno i'r cynllun neu'r prosiect beth bynnag am unrhyw asesiad negyddol o'r goblygiadau i'r safle Ewropeaidd neu'r safle morol alltraeth Ewropeaidd (yn ôl y digwydd)".*

Ymhellach, mae Rheoliad 68 yn datgan:

> *"Lle, yn unol â rheoliad 64—*
>
> *(a) y cytunir ar gynllun neu brosiect, beth bynnag am asesiad negyddol o'r goblygiadau ar gyfer safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd, neu*
>
> *(b) bod penderfyniad, neu gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall, yn cael ei gadarnhau drwy adolygiad, beth bynnag am asesiad o'r fath,*
>
> *rhaid i'r awdurdod priodol sicrhau y cymerir unrhyw fesurau digolledu angenrheidiol i sicrhau y diogelir cydlyniad cyffredinol Natura 2000".*

Fodd bynnag, o safbwynt rhwydwaith Natura 2000 (uchod), er bod y broses fwy neu lai yr un fath, nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig y DU yn rhan o rwydwaith Natura 2000 mwyach, a chydlyniad rhwydwaith safleoedd cenedlaethol y DU sy'n cael ei gynnal. Yr 'awdurdod priodol' fydd yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol neu Weinidog perthnasol Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys y Comisiwn Ewropeaidd mwyach. Gwneir y diwygiadau hyn i Reoliadau Cynefinoedd yn sgil Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Os cyrhaeddir camau diweddarach yr ARhC (a amlinellir yn Adran 2.2 isod) a bod effaith yn mynd i fod ar gynefinoedd blaenoriaeth Atodiad 1 neu rywogaethau blaenoriaeth Atodiad 2 (wedi'u nodi â seren), mae hyn yn dylanwadu ar y rhesymau a ganiateir fel rhesymau hanfodol sydd o fydd amlwg i'r cyhoedd. Yn ôl Rheoliad 64 (2) mae'r rhesymau a ganiateir wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n ymwneud â: a) iechyd dynol, diogelwch y cyhoedd neu ganlyniadau buddiol o bwys sylfaenol i'r amgylchedd; neu, b) unrhyw resymau eraill y mae'r awdurdod cymwys, gan roi sylw priodol i farn yr awdurdod priodol, yn eu hystyried yn rhesymau hanfodol sydd o fudd amlwg i'r cyhoedd. Yr 'awdurdod priodol' yng Nghymru a Lloegr yw'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn y drefn honno.

## 2.2. Trosolwg o'r Broses ARhC

Yn syml iawn, gellir disgrifio proses yr ARhC fel un sy'n cynnwys tri cham[13]:

---

[13] https://www.gov.uk/guidance/habitats-regulations-assessments-protecting-a-european-site#how-to-carry-out-an-hra

- **Cam Un: Sgrinio** - y broses sy’n nodi’r posibilrwydd o effeithiau tebygol ar brosiect neu gynllun ar Safle Cynefinoedd, un ai ar ei ben ei hun neu ‘ar y cyd’ â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ac yn ystyried a yw’r effeithiau hyn yn debygol o fod yn sylweddol;
- **Cam Dau: Asesiad priodol** – ystyried effaith prosiect neu gynllun ar gyfanrwydd Safle Cynefinoedd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, mewn perthynas ag amcanion cadwraeth y Safle Cynefinoedd. Ar ben hynny, pan nodir effeithiau niweidiol, cynhelir asesiad o’r mesurau lliniaru posibl ar gyfer yr effeithiau hynny a bydd yn cael ei gynnwys wrth benderfynu ar y posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y Safle Cynefinoedd;
- **Cam Tri: Rhanddirymiadau** – ystyried a yw cynigion a fyddai’n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safle Cynefinoedd (ar ôl lliniaru) yn gymwys i gael esemptiad.

Disgrifiwyd y rhanddirymiadau yng Ngham Tri ar wahân yn flaenorol fel Cam Tri a Cham Pedwar[14] [15] [16]. Sut bynnag maent yn cael eu disgrifio, mae’r ddau’n mynnu y dylid cynnal tri phrawf cyfreithiol.

1. Nid oes atebion ymarferol eraill a fyddai’n llai niweidiol nac yn osgoi difrod i’r Safle Cynefinoedd.
2. Mae angen i’r cynnig gael ei wneud am Resymau Hanfodol sydd o Fudd amlwg i’r Cyhoedd.
3. Gellir sicrhau’r mesurau cydbwyso angenrheidiol.

Ar gyfer y prawf cyntaf mae angen asesu atebion amgen, proses sy’n archwilio ffyrdd amgen o gyflawni amcanion y prosiect neu’r cynllun a allai osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y Safle Cynefinoedd. Mae angen dangos yn bendant nad oes dewisiadau ymarferol yn lle’r prosiect neu’r cynllun er mwyn bodloni’r prawf hwn. Os oes dewis arall sy’n llai niweidiol neu’n osgoi effeithiau niweidiol, dylid ei ddefnyddio, ac os felly mae’n debygol y bydd angen adolygu’r Asesiad Priodol.

Lle nad oes atebion eraill ar gael a lle mae effeithiau niweidiol yn parhau, dim ond os bodlonir yr ail brawf rhanddirymiad y gellir bwrw ymlaen â’r cynnig, gan sefydlu bod achos Rhesymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i’r Cyhoedd ar gyfer y cynllun neu’r prosiect.

Y trydydd prawf yw nodi mesurau cydbwyso, canfod pa mor effeithiol ydynt a sicrhau eu bod yn sicr ac yn ddiogel.

[14] Y Comisiwn Ewropeaidd (2001) Asesiad o gynlluniau a phrosiectau sy’n cael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000 – Canllawiau methodolegol ar ddarpariaethau Erthygl 6(3) a (4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC.
[15] Guidance on the use of Habitats Regulations Assessment - https:///www.gov.uk/guidance/appropriate-assessment
[16] Tyldesley, D. a Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, rhifyn Mehefin 2023 y DU: DTA Publications Limited.

# 3. Sgrinio'r ARhC

## 3.1. Cwmpasu Safleoedd Cynefinoedd ar gyfer eu Sgrinio

Cyn sgrinio, mae angen nodi'r holl Safleoedd Cynefinoedd y gallai'r prosiect neu'r cynllun effeithio arnynt. Y fethodoleg a'r cwmpas a ddefnyddir fydd yn pennu hyd a lled y chwiliad, a bydd yn dibynnu ar natur y prosiect neu'r cynllun o ran pa mor bellgyrhaeddol y gallai'r effeithiau fod.

Mae'r DPC newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear yn cael ei asesu er nad oes cynigion gofodol nac unrhyw safleoedd wedi cael eu henwebu ar hyn o bryd. Felly, ni chwmpaswyd Safleoedd Cynefinoedd penodol ac oherwydd bod y DPC ar waith ledled y wlad, rhaid tybio y gallai effeithio ar bob un o Safleoedd Cynefinoedd y DU.

Yn y DU ar hyn o bryd, mae 656 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, 286 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a dynodwyd tua 142 o safleoedd Ramsar ar draws amgylcheddau tiriogaethol a morol[17]. Mae hyn yn cynnwys safleoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac er nad yw'r DPC yn effeithio arnynt, gallai effeithiau posibl prosiectau niwclear newydd yng Nghymru a Lloegr effeithio ar Safleoedd Cynefinoedd yn y gwledydd hyn, h.y. effeithiau trawsffiniol. Mae Tabl 3-1 isod yn nodi nifer y dynodiadau ym mhob gwlad a'r dynodiadau hynny sydd o boptu i'r ffin neu sydd wedi'u lleoli'n rhannol ar y môr.

**Tabl 3-1: Crynodeb o Safleoedd Cynefinoedd y DU**

| | SAC | SCI | Darpar ACA | SPA | Ramsar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 242 | | | 82 | 68 | 392 |
| Lloegr/Yr Alban | 3 | | | 1 | 1 | 5 |
| Cymru/Lloegr | 7 | | | 2 | 3 | 12 |
| Lloegr/Ar y môr | 3 | | | 2 | | 5 |
| Cymru/Lloegr/Ar y môr | 1 | | | 1 | | 2 |
| Gogledd Iwerddon | 57 | | | 16 | 20 | 93 |
| Gogledd Iwerddon/Ar y môr | 1 | | | | | 1 |
| Yr Alban | 238 | 1 | | 160 | | 399 |
| Yr Alban/ Ar y môr | 2 | | | 3 | | 5 |
| Cymru | 85 | | | 17 | 50 | 152 |
| Cymru/Ar y môr | 2 | | | 1 | | 3 |
| Dyfroedd Môr y DU | 15 | | 1 | 1 | | 17 |
| Cyfanswm | 656 | 1 | 1 | 286 | 142 | 1086 |

Ffynhonnell: JNCC - ffigurau'r ACA yn gywir ar 20 Ebrill 2023; ffigurau AGA yn gywir ar 30 Medi 2022.

[17] https://jncc.gov.uk/

Gan ddefnyddio'r dull 'ffynhonnell-llwybr-derbynnydd' ac ystyried effeithiau pellgyrhaeddol posibl datblygiadau seilwaith ynni, fel gorsafoedd pŵer niwclear, mae'n bosibl y bydd Safleoedd Cynefinoedd mewn gwledydd eraill yn cael effaith ar rywogaethau mudol. Ystyrir y gallai hyn fod yn wir ar gyfer mamaliaid morol, pysgod ac adar mudol, gyda llawer ohonynt yn teithio'n bell i ddefnyddio cynefinoedd eraill, yn symud o fewn eu tiriogaeth naturiol neu wrth fudo. Felly, mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw y tu allan i ffin y Safle Cynefinoedd y maen nhw'n nodwedd gymhwyso ohono. At ddibenion yr asesiad hwn, tybir nad oes angen ystyried effeithiau ar Safleoedd Cynefinoedd y tu allan i'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Wrth asesu'r effeithiau ar y gyfres o Safleoedd Cynefinoedd sy'n gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau yn y DU, tybir, yn enwedig yn nyfroedd tiriogaethol y DU, y rhoddir digon o sylw i effeithiau posibl ar rywogaethau mudol.

O ran amgylchedd morol y DU, mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn gosod dyletswyddau penodol ar y Sefydliad Rheoli Morol mewn perthynas â pharthau cadwraeth morol a phenderfyniadau sy'n ymwneud â thrwyddedau morol. Efallai y bydd angen ymgynghori â'r Sefydliad Rheoli Morol fel rhan o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer cydrannau datblygiadau niwclear sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol, fel carthu a phibellau mewnlif/ all-lif dŵr oeri.

## 3.2. Dull gweithredu yng Ngham 1 – Sgrinio

Yn unol â Rheoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd:

*(1) Cyn penderfynu ymgymryd ag, neu roi cydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer, cynllun neu brosiect sydd:*

*(a) yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill), a*

*(b) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli'r safle hwnnw nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny,*

*mae'n rhaid i awdurdod cymwys wneud asesiad priodol o oblygiadau'r cynllun neu'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safle.*

Felly, mae cam cyntaf sgrinio yn asesiad syml i ganfod a yw prosiect, cynllun neu gynnig:

- mewn perygl o gael effaith sylweddol ar Safle Cynefinoedd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill.
- yn uniongyrchol gysylltiedig â Safle Cynefinoedd, neu'n angenrheidiol ar gyfer rheoli cadwraeth Safle Cynefinoedd; a,

Gellir datgan yn hyderus nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y DPC newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear a rheoli cadwraeth unrhyw Safle Cynefinoedd, ac nad yw ychwaith yn angenrheidiol ar gyfer gwneud hynny. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn adroddiad yr ARhC ac nid yw'r Adroddiad Methodoleg hwn yn ei drafod ymhellach.

Mae Adran 3.1 uchod yn nodi sut, at ddibenion asesu'r DPC, y cafodd Safleoedd Cynefinoedd eu cwmpasu i'w hasesu. Yn ogystal â hyn, mae angen y cydrannau canlynol hefyd:

- Disgrifio'r cynllun, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas daearyddol ac amserlenni, lle bo hynny'n berthnasol;
- Nodi'r effeithiau posibl ar y Safle Cynefinoedd yn unig ac asesu a ydynt yn debygol o fod yn sylweddol;
- Nodi cynlluniau neu brosiectau eraill a allai, gyda'i gilydd, gael effeithiau sylweddol ar y Safle Cynefinoedd.

Ar hyn o bryd, ni roddir ystyriaeth wrth sgrinio i fesurau sy'n ceisio osgoi neu leihau effeithiau ar Safleoedd Cynefinoedd. Dim ond yng Ngham 2 – Asesiad Priodol y gellir ystyried y rhain. Mae hyn yn gyson â chyfraith achosion[18].

## Disgrifio'r Cynllun

Bydd y cam hwn yn cynnwys disgrifio cynnwys y DPC niwclear, gan dynnu sylw at ble a sut y gallai fod â'r capasiti i achosi effeithiau ar Safleoedd Cynefinoedd.

## Nodi effeithiau posibl ar y Safleoedd Cynefinoedd yn unig

Ar ôl penderfynu nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y prosiect neu'r cynllun â Safle Cynefinoedd, neu nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli Safle Cynefinoedd, mae angen sgrinio i benderfynu a yw'r cynigion yn debygol o gael Effaith Sylweddol Tebygol ar unrhyw Safleoedd Cynefinoedd.

Mae'n bwysig nodi mai'r baich o safbwynt tystiolaeth yw dangos, ar sail gwybodaeth wrthrychol, na fydd y prosiect neu'r cynllun yn cael Effaith Sylweddol Tebygol ar Safle Cynefinoedd. Os yw'n bosibl bod Effaith Sylweddol Tebygol, neu os oes ansicrwydd ac na ellir diystyru Effaith Sylweddol Tebygol, byddai hyn yn arwain at yr angen am asesiad priodol. O ganlyniad i gyfraith achosion[19], beth bynnag yw ystyr arferol 'tebygol' yn Gymraeg, yn y cyd-destun statudol hwn mae 'effaith sylweddol debygol' yn 'effaith sylweddol bosibl', un na ellir ei diystyru ar sail tystiolaeth wrthrychol, h.y. 'nid oes amheuaeth wyddonol resymol o hyd o ran diffyg effeithiau o'r fath'[20].

Mae dyfarniad Waddenzee[14] hefyd yn rhoi eglurhad pellach ynghylch y term 'arwyddocaol': *"pan fo cynllun neu brosiect nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r safle nac yn angenrheidiol i reoli safle yn debygol o danseilio amcanion cadwraeth y safle, rhaid ystyried ei fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle hwnnw. Rhaid cynnal yr asesiad o'r risg honno yng ngoleuni inter alia nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle dan sylw gan gynllun neu brosiect o'r fath."*

## Nodi effeithiau posibl ar y Safleoedd Cynefinoedd yn unig

Ar ôl penderfynu nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y prosiect neu'r cynllun â Safle Cynefinoedd, neu nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli Safle Cynefinoedd, mae angen sgrinio i benderfynu a yw'r cynigion yn debygol o gael Effaith Sylweddol Tebygol ar unrhyw Safleoedd Cynefinoedd.

Mae'n bwysig nodi mai'r baich o safbwynt tystiolaeth yw dangos, ar sail gwybodaeth wrthrychol, na fydd y prosiect neu'r cynllun yn cael Effaith Sylweddol Tebygol ar Safle

18 People over Wind v Coillte Teoranta (12 Ebrill 2018) Achos C-323/17
19 Dyfarniad Waddenzee (7 Medi 2004) Achos C127/02
20 Tyldesley, D. a Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, rhifyn Mehefin 2023 y DU: DTA Publications Limited

Cynefinoedd. Os yw'n bosibl bod Effaith Sylweddol Tebygol, neu os oes ansicrwydd ac na ellir diystyru Effaith Sylweddol Tebygol, byddai hyn yn arwain at yr angen am asesiad priodol. O ganlyniad i gyfraith achosion, beth bynnag yw ystyr arferol 'tebygol' yn Gymraeg, yn y cyd-destun statudol hwn mae 'effaith sylweddol debygol' yn 'effaith sylweddol bosibl', un na ellir ei diystyru ar sail tystiolaeth wrthrychol, h.y. 'nid oes amheuaeth wyddonol resymol o hyd o ran diffyg effeithiau o'r fath'.

Mae dyfarniad Waddenzee[14] hefyd yn rhoi eglurhad pellach ynghylch y term 'arwyddocaol': *"pan fo cynllun neu brosiect nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r safle nac yn angenrheidiol i reoli safle yn debygol o danseilio amcanion cadwraeth y safle, rhaid ystyried ei fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle hwnnw. Rhaid cynnal yr asesiad o'r risg honno yng ngoleuni inter alia nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle dan sylw gan gynllun neu brosiect o'r fath."*

Mae'n arferol asesu effeithiau posibl i ystyried effeithiau adeiladu, gweithredu a digomisiynu ar wahân, lle maent yn berthnasol. Er bod yr effeithiau posibl drwy gydol y camau adeiladu a gweithredu yn wahanol, o ystyried natur strategol yr asesiad hwn, bydd yr effeithiau lefel uchel posibl a ystyrir yn cynnwys pob effaith bosibl yn sgil y camau adeiladu a gweithredu. Felly, ni fyddant yn cael eu trin ar wahân yn y broses asesu. Tybir, gan ystyried y senario waethaf bosibl, y bydd effeithiau digomisiynu yn debyg i effeithiau'r gwaith adeiladu ac, felly, yn cael ei gwmpasu hefyd yn yr effeithiau a ystyrir.

Cydnabyddir y gallai fod effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â defnyddio technolegau niwclear na fydd efallai'n cael eu nodi tan y cam prosiect, oherwydd natur lefel uchel yr asesiad o'r DPC. Pan fo'n bosibl, nodir effeithiau penodol posibl, ond mae'n ddoeth tybio mai dim ond ar lefel prosiect y caiff effeithiau eu hystyried yn fanwl ar gyfer datblygiadau a gynigir yn unigol. Un enghraifft o hyn fyddai'r allyriadau radiolegol o safleoedd niwclear, a fydd yn destun rheoleiddio llym yn ystod y cam gweithredu a bydd angen strategaeth ddigomisiynu gyda'r holl drwyddedau a chymeradwyaethau perthnasol eraill yn cael eu cymeradwyo cyn dechrau digomisiynu.

Nid yw'r DPC niwclear yn cynnwys polisïau nac amcanion penodol y gellid eu hasesu yn eu rhinwedd eu hunain. Ar ben hynny, mae'n darparu fframwaith a meini prawf cyffredinol ar gyfer nodi a darparu safleoedd niwclear newydd. Gan nad oes polisïau neu amcanion sy'n hyrwyddo datblygiad yn uniongyrchol ac nad oes safleoedd enwebedig sy'n gysylltiedig â'r DPC drafft presennol nid oes mecanwaith clir i'r DPC gael unrhyw effaith ar Safleoedd Cynefinoedd.

Yn unol â'r arferion gorau presennol, ystyrir yn awr ei bod yn briodol ymgymryd â dull 'ffynhonnell-llwybr-derbynnydd' wedi'i dargedu ar gyfer nodi safleoedd i'w sgrinio. Mae hyn yn caniatáu ystyried symudiadau rhywogaethau mudol fel adar, pysgod a mamaliaid morol a'u potensial i ryngweithio â seilwaith/safleoedd unigol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl defnyddio dull o'r fath gyda'r ARhC hwn gan nad yw'r DPC yn cynnwys unrhyw gydran ofodol na safleoedd enwebedig er mwyn gallu cynnal asesiad manwl. Gallai datblygiadau niwclear newydd a seilwaith cysylltiedig, fel yr hwylusir gan y DPC, ddigwydd yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, gan efallai effeithio ar unrhyw un o'r Safleoedd Cynefinoedd ledled y DU ac yn ehangach ar draws Ewrop.

Fodd bynnag, gellir defnyddio canlyniadau'r sgrinio i lywio cwmpas unrhyw broses ARhC ar lefel prosiect yn y dyfodol drwy dynnu sylw at lwybrau effaith posibl.

Rhoddir ystyriaeth i'r effeithiau posibl cyffredinol a ganlyn:

- Colli cynefinoedd, eu dirywiad a'u darnio (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol e.e. colli tir â chyswllt swyddogaethol);
- Newidiadau i ansawdd dŵr tiriogaethol (ffres);
- Newidiadau i ansawdd dŵr morol;
- Newidiadau i ansawdd aer;
- Newidiadau i hydroleg dŵr wyneb a dŵr daear;
- Newidiadau mewn prosesau arfordirol;
- Newidiadau i allyriadau radiolegol;
- Aflonyddu ar rywogaethau (gweledol, sŵn a dirgryniadau tiriogaethol, sŵn a dirgryniadau morol);
- Rhyngweithio ffisegol rhwng rhywogaethau a seilwaith prosiectau; a,
- Cyflwyno Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS).

Bydd ARhC y DPC niwclear yn diffinio'r camau gweithredu a'r prosesau penodol a allai arwain at yr effeithiau bras a amlinellir uchod a bydd y rhestr yn cael ei mireinio yn ôl yr angen wrth i'r asesiad ddatblygu.

Bydd y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Tebygol yn cael ei asesu yn rhinwedd Amcanion Cadwraeth.  Y Corff Cadwraeth Natur Statudol perthnasol sy'n cyhoeddi'r rhain ar gyfer pob Safle Cynefinoedd a thrwy gyflawni'r amcanion, bydd y safle'n cyfrannu at statws cadwraeth ffafriol ar gyfer y math hwnnw o gynefin neu rywogaeth ar lefel y DU. Felly, bydd tanseilio'r Amcanion Cadwraeth yn arwain at Effaith Sylweddol Tebygol ar un neu fwy o nodweddion cymwys.  Yn fras, mae Amcanion Cadwraeth yn cynnwys y targedau canlynol:

- Cynnal nifer a dosbarthiad y cynefinoedd a chynefinoedd cymwys rhywogaethau cymwys;
- Cynnal strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys;
- Cynnal strwythur a swyddogaeth cynefinoedd rhywogaethau cymwys;
- Cynnal y prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys a chynefinoedd rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt;
- Cynnal poblogaethau rhywogaethau cymwys; a,
- Cynnal dosbarthiad rhywogaethau cymwys ar y safle.

Dylid darllen yr Amcanion Cadwraeth ar y cyd â'r Cyngor Atodol ar Amcanion Cadwraeth, lle mae'r cyngor hwn ar gael ar gyfer Safle Cynefinoedd.  Y Corff Cadwraeth Natur Statudol perthnasol sy'n cyhoeddi'r Cyngor Atodol ac mae'n rhoi rhagor o fanylion am sut y gellir cyflawni'r targedau priodoleddau.  Fodd bynnag, o ystyried natur lefel uchel yr asesiad ar gyfer y cynllun, dim ond mewn asesiadau ar lefel prosiectau y mae Cyngor Atodol yn berthnasol. Efallai y bydd y Corff Cadwraeth Natur Statudol yn rhoi cyngor ar achosion penodol y mae'n rhaid ei ystyried, ond unwaith eto, dim ond i asesiad ar lefel prosiect y bydd hyn yn berthnasol.

Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried y ffordd y bydd rhai effeithiau yn effeithio ar yr Amcanion Cadwraeth. Er enghraifft, byddai colli cynefin yn arwain at fethiant i fodloni'r Amcan Cadwraeth i "gadw nifer y cynefinoedd cymwys a'u dosbarthiad".

Efallai y bydd angen ymgynghori â'r Sefydliad Rheoli Morol hefyd mewn perthynas ag effeithiau posibl a goblygiadau trwyddedu morol ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol.

Pwrpas yr ymarfer hwn yw canfod a allai'r DPC niwclear gael Effaith Sylweddol Tebygol 'o ran ei hun' ar un neu fwy o Safleoedd Cynefinoedd. Wrth bennu'r posibilrwydd o lwybrau effaith drwy'r gwahanol ddulliau a nodir uchod, gellir gwneud asesiad i'r perwyl hwn.

## Nodi cynlluniau neu brosiectau eraill a allai weithredu yn gyfunol i gael effeithiau sylweddol tebygol ar y Safle Cynefinoedd

Yn ystod y broses sgrinio, mae angen ystyried y posibilrwydd o Effaith Sylweddol Tebygol 'annibynnol' a 'chyfunol' ar Safleoedd Cynefinoedd. Pan benderfynir bod Effaith Sylweddol Tebygol annibynnol, gellir ystyried effeithiau cyfunol posibl gyda chynlluniau a phrosiectau eraill i gael eu hasesu'n briodol (trafodir hyn yn Adran 4.2 isod). Fodd bynnag, os oes effaith, ond na ystyrir bod Effaith Sylweddol Tebygol ar Safle Cynefinoedd, h.y. mae'r effaith yn fach ac yn ansylweddol, mae angen cynnal asesiad cyfunol yn ystod y cam sgrinio. Wedyn, gall yr effaith ansylweddol sy'n deillio o'r DPC, wedi'i chyfuno ag effeithiau o gynllun neu brosiect arall, gael Effaith Sylweddol Tebygol ar y Safle Cynefinoedd.

Rhoddir ystyriaeth i'r math o effaith a'r ffordd y gallant gyfuno i gynhyrchu effaith ar Safle Cynefinoedd ac a yw'r effaith gyfunol honno'n debygol o fod yn sylweddol ai peidio.

Gall effeithiau gyfuno i gynyddu'r effaith niweidiol ar unrhyw nodwedd gymwys mewn ffordd synergyddol neu ychwanegol. Gallai hyn fod drwy gynyddu sensitifrwydd neu fregusrwydd y nodwedd gymwys, gan arwain at fwy o effaith neu effaith fwy dwys, neu effaith ar ardaloedd ychwanegol o nodwedd gymwys neu ei chynefin. Mae effeithiau ar nodweddion cymwys unigol yn annhebygol o gyfuno i greu effaith fwy niweidiol.

Lle gellir dangos na fydd y DPC yn cael unrhyw effaith, h.y. dim effaith sylweddol, yna nid oes gofyniad i gynnal asesiad effeithiau cyfunol. Gan nad oes unrhyw beth i'w gyfuno, gallai hynny wedyn arwain at effaith bosibl ar Safle Cynefinoedd.

Fodd bynnag, oherwydd natur strategol a lefel uchel y DPC, efallai na fydd yn bosibl sgrinio Safleoedd Cynefinoedd o'r asesiad priodol. Felly, bydd effeithiau cyfunol posibl yn cael eu trafod yn ystod y cam asesu priodol. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn Adran 4.2 isod.

### Canfyddiadau Cam 1

Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau yng nghyswllt Cam 1 a chadarnheir a ddylai'r asesiad o'r DPC niwclear fynd ymlaen i Gam 2, Asesiad Priodol ai peidio.

# 4. Asesiad Priodol

## 4.1 Dull gweithredu ar gyfer Cam 2 – Asesiad Priodol

Ar gyfer Safleoedd Cynefinoedd, cynhelir asesiad priodol lle rhagwelir bod Effaith Sylweddol Tebygol (yn annibynnol neu'n gyfunol), neu lle na ellir dod i'r casgliad nad oes Effaith Sylweddol Tebygol ar sail gwybodaeth wrthrychol. Hynny yw, "os yw'r cynllun neu'r prosiect yn debygol o danseilio amcanion cadwraeth y safle, gwneir yr asesiad o'r risg honno yng ngoleuni nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle o dan sylw ar gyfer cynllun neu brosiect o'r fath" (yn unol â dyfarniad Waddenzee[21], paragraff 45 a 49).

Dim ond y llwybrau effaith posibl a nodwyd yn ystod Sgrinio Cam 1 yn erbyn yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer Safleoedd Cynefinoedd y gellir eu hystyried yn yr asesiad priodol. Yn dibynnu ar y nodweddion cymwys, mae amcanion cadwraeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig fel arfer yn cwmpasu maint, dosbarthiad, strwythur a swyddogaeth cynefinoedd naturiol cymwys, y prosesau cefnogi y mae cynefinoedd (a rhywogaethau) a'r boblogaeth a dosbarthiad rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt. Ar y cyd â'r Cyngor Atodol ar Amcanion Cadwraeth ar gyfer Safle Cynefinoedd (Ewropeaidd), mae'r Amcanion Cadwraeth yn darparu fframwaith ar gyfer asesu a gwybodaeth ynghylch sut y gallai fod effaith andwyol ar nodweddion cymwys. Nid oes gan safleoedd Ramsar amcanion cadwraeth; fodd bynnag, gan eu bod fel arfer yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig hefyd ac yn aml yn cynnwys yr un nodweddion neu nodweddion cymwys tebyg iawn, bydd yr amcan cadwraeth ar gyfer y safleoedd hyn ar waith drwy ddirprwy.

## 4.2. Cyfanrwydd Safle Cynefin

Y diffiniad o gyfanrwydd safle yw *"cydlyniaeth strwythur a swyddogaeth ecolegol y safle, ar draws ei ardal gyfan, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, cymhlethfaoedd o gynefinoedd a/neu boblogaethau o rywogaethau y dynodwyd y safle ar eu cyfer, neu y bydd yn cael ei ddynodi ar eu cyfer"*[22].

Mae'r canllawiau sy'n berthnasol i Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd yn pwysleisio bod cyfanrwydd y safle'n ymwneud â'i swyddogaethau ecolegol ac y dylai'r asesiad o effaith niweidiol ganolbwyntio ar amcanion cadwraeth y safle yn y cyswllt hwnnw a chael ei gyfyngu i'r rheiny.

Mae'r asesiad priodol o'r DPC niwclear yn cynnwys asesiad o'r effeithiau niweidiol i'r graddau sy'n bosibl ar sail manylder y cynllun. Bydd dull rhagofalus yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu Safleoedd Cynefinoedd i mewn neu allan o asesiad priodol yn ystod y broses sgrinio. Mae hyn yn angenrheidiol pan nad oes cydran ofodol i'r cynllun. Ar gyfer cynllun nad yw'n gynllun

[21] Dyfarniad Waddenzee (7 Medi 2004) Achos C127/02
[22] Natural England (2019) MPA Conservation Advice Glossary of Terms. Ar gael yma: https://designatedsites.naturalengland.org.uk/pdfs/MPA_CAGlossary_March2019.pdf

lleoliad, dylid nodi nad yw'n bosibl cynnal asesiad manwl yn ddiweddarach o'r posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol ar dderbynyddion.

Felly, bydd yr asesiad priodol ar lefel strategol yn seiliedig ar yr effeithiau posibl a nodwyd (gweler Adran 3.2.14 uchod). Bydd yn tynnu sylw at y risgiau i gyflawni amcanion cadwraeth lefel uchel ar gyfer Safleoedd Cynefinoedd o ganlyniad i'r datblygiadau niwclear posibl a allai gael eu hwyluso yn sgil y DPC.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dau ddarn o gyfraith achosion[23], a eglurodd nad oes rhaid i asesiad priodol o gynllun ddarparu ateb terfynol i'r holl gwestiynau dilys a godwyd ynghylch y posibilrwydd o gael effaith niweidiol sylweddol ar gyfanrwydd y safle dynodedig.

Ym Marn yr Eiriolwr Cyffredinol Kokott[24] ym mharagraff 49, nododd na all asesiad o gynlluniau, drwy eu diffiniad, ystyried pob effaith oherwydd *"Yn aml, nid yw llawer o fanylion yn cael eu setlo tan ddyddiad y caniatâd terfynol" ac "ni fyddai ychwaith yn briodol mynnu lefel uwch o fanylion mewn cynlluniau blaenorol neu ddiddymu gweithdrefnau cynllunio a chymeradwyo aml-gam fel y gellir canolbwyntio'r asesiad o oblygiadau ar un pwynt yn y weithdrefn. Yn hytrach, rhaid asesu effeithiau niweidiol ar ardaloedd cadwraeth ar bob cam perthnasol o'r weithdrefn i'r graddau sy'n bosibl ar sail manylder y cynllun. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru yn fwy manwl yng nghamau dilynol y weithdrefn".*

## 4.3. Asesiad Cyfunol

Pan fydd asesiad cyfunol wedi mynd ymlaen i Gam 2, drwy nodi Effaith Sylweddol Tebygol yn annibynnol neu'n gyfunol, mae angen asesu'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd Safle Cynefinoedd o ganlyniad i'r effaith gyfunol. Fodd bynnag, mae bellach modd ystyried camau lliniaru. Rhaid nodi ei bod ond yn bosibl asesu'r effeithiau negyddol ar y cam perthnasol i'r graddau sy'n bosibl ar sail manylder y cynllun.

O ystyried natur y DPC niwclear, mae'n anochel y bydd oedi rhwng mabwysiadu'r Datganiad a datblygu unrhyw dechnolegau niwclear wedi hynny. Nid yw'n bosibl gwybod pryd (neu yn wir os) y cyflwynir unrhyw gynnig prosiect dilynol ac felly nid yw'n bosibl rhagweld pa gynlluniau a phrosiectau eraill fydd yn berthnasol i asesiadau prosiect yn y dyfodol.

Ni fydd asesiad cyfunol ffurfiol yn cael ei gynnal, ond bydd y mathau o brosiect a chynllun yn cael eu nodi yn ddiweddarach, gan gynnwys cynlluniau eraill ar lefel cenedlaethol a allai fod yn berthnasol i ARhC ar lefel prosiect. Gan y gellid datblygu technoleg niwclear yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, bydd angen ystyried cynlluniau sydd â ffocws cenedlaethol ochr yn ochr â'r rhai sy'n cael eu hystyried yn rhai rhanbarthol neu leol. Mae'n debygol y bydd angen ARhC ar lefel prosiect ar gyfer pob datblygiad niwclear newydd, lle bydd effeithiau cyfunol yn cael eu hasesu fesul achos ac o fewn amserlen berthnasol a phenodol. Bydd y wybodaeth a gesglir fel rhan o'r asesiad cyfunol ar gyfer yr ARhC ar gyfer yr DPC cynhyrchu pŵer niwclear newydd yn rhoi arweiniad ar gyfer dechrau asesiad cyfunol ar lefel prosiect.

[23] Feeney v Oxford City Council & Ors [2011] EWHC 2699 Admin and The Cairngorm Campaign & Ors v The Cairngorms National Park Authority & Ors [2013] ScotCS CSIH_65A"
[24]Y Comisiwn Ewropeaidd v y DU (2005) ECR I-9017 Achos C-6/04

Mae Nodyn Cyngor yr Arolygiaeth Gynllunio, ‘Asesiad o effeithiau cronnus sy’n berthnasol i brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol’[25], yn nodi’r dull a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau cronnus mewn perthynas â gorchmynion cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae hyn yn digwydd fesul cam, a gellid ei fabwysiadu ar gyfer asesiadau cyfunol ar lefel prosiect:

- Cam 1 – Sefydlu’r rhestr hir – penderfynu ar barth dylanwad effeithiau amgylcheddol er mwyn darparu ardal chwilio y gellir ei chyfiawnhau;
- Cam 2 – Sefydlu’r rhestr fer – defnyddio meini prawf trothwy, e.e. cwmpas amserol;
- Cam 3 – Casglu gwybodaeth – ar gyfer prosiectau a chynlluniau ar y rhestr fer, gan gynnwys cael Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd;
- Cam 4 – Asesiad – archwilio gwybodaeth a gasglwyd i bennu a oes posibilrwydd o effeithiau cyfunol ar Safle Cynefinoedd penodol.

Bydd yn allweddol sicrhau bod asesiad cyfunol yn cynnig ffocws priodol ac yn gymesur, gan nodi’n rhesymol yr holl risgiau o effeithiau cyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill.

## 4.4. Mesurau Lliniaru

Cynhelir gwerthusiad ar fesurau lliniaru ac osgoi y gellid eu defnyddio ar lefel ARhC y prosiect yr ystyrir eu bod yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau neu ddileu effeithiau niweidiol posibl ar Safleoedd Cynefinoedd. Dim ond mewn termau generig ar y lefel strategol hon y gellir ystyried mesurau lliniaru heb fanylion ar lefel prosiect i bennu beth yn union sydd ei angen.

Gellir ymgorffori mesurau lliniaru mewn cynllun drwy wneud newidiadau i’r testun, er enghraifft, i gynnwys ymrwymiadau i gynnal ARhC (neu asesiad tebyg) ar ddatblygiad sy’n codi, lle bo angen, yn unol â’r Rheoliadau Cynefinoedd (neu unrhyw ddeddfwriaeth newydd ddilynol). Archwilir y cwmpas ar gyfer lliniaru fel hyn, sydd wedi’i wreiddio yn y DPC.

Felly, bydd pennod lliniaru’r ARhC ar gyfer y DPC niwclear yn amlinellu mesurau osgoi a lliniaru yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer effeithiau niweidiol posibl ar Safleoedd Cynefinoedd a Rhywogaeth â Blaenoriaeth. Bydd rheidrwydd i’r mesurau gael cwmpas eang a byddant yn defnyddio mesurau lliniaru ac osgoi generig ar gyfer prosiectau seilwaith mawr. Yn ogystal, bydd hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer testun lliniarol y gellid ei gynnwys yn nhestun y DPC, lle mae hyn yn ymarferol.

[25] Ail Nodyn Cyngor ar Bymtheg yr Arolygiaeth Gynllunio: Cumulative effects assessment relevant to nationally significant infrastructure projects. Ar gael yma: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/advice-note-17/

# 5. Rhanddirymiadau

Os dangosir, hyd yn oed ar ôl lliniaru, bod effeithiau niweidiol gweddilliol ar gyfanrwydd y safle, yna bydd angen i brosiect fynd drwy'r rhanddirymiadau. Cyfres o dri phrawf yw'r rhain y mae angen eu bodloni er mwyn caniatáu i'r cynllun neu'r prosiect fynd yn ei flaen. Anaml iawn y bydd cynlluniau'n mynd y tu hwnt i Gam 2 oherwydd y posibilrwydd y caiff y cynllun ei ddiwygio ac ysgrifennu mesurau diogelu i sicrhau y cynhelir cyfanrwydd Safleoedd Cynefinoedd. Er bod y rhanddirymiadau'n fwy perthnasol i brosiectau, mae'r adrannau canlynol yn nodi'r gofynion ar gyfer y tri phrawf a sut y gallai'r rhain fod yn berthnasol i'r DPC. Dyma'r tri phrawf:

- Nid oes atebion ymarferol eraill a fyddai'n llai niweidiol nac yn osgoi difrod i'r Safle Cynefinoedd;
- Mae angen i'r cynnig gael ei wneud am Resymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i'r Cyhoedd;
- Gellir sicrhau'r mesurau unioni angenrheidiol.

## 5.1. Dull o Asesu Atebion Eraill

Mae Rheoliad 107(1) o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn datgan "*Os yw'r awdurdod sy'n gwneud y cynllun yn fodlon nad oes unrhyw atebion eraill, rhaid rhoi'r cynllun defnydd tir ar waith am resymau hanfodol sydd o fudd amlwg i'r cyhoedd...gallant roi'r cynllun defnydd tir ar waith er gwaethaf asesiad negyddol o'r goblygiadau i'r Safle Ewropeaidd neu'r safle morol Ewropeaidd*...".

Pwrpas y prawf atebion eraill yw penderfynu a oes unrhyw ffyrdd ymarferol eraill o gyflawni amcan cyffredinol y cynllun [neu'r prosiect], a fydd yn llai niweidiol neu'n osgoi difrod i'r Safle(oedd) Cynefinoedd dan sylw. Er mwyn caniatáu rhanddirymiad, rhaid dangos nad oes ateb arall a fyddai'n llai niweidiol cyn y gall yr asesiad symud ymlaen i'r cam nesaf.

Y gofyniad yw ystyried 'atebion eraill', nid dim ond 'dewisiadau eraill'. Yn ôl y Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd[26], mae pedwar prif gam wrth benderfynu a oes atebion eraill ar gael ai peidio:

- Cam 1 – diffinio amcanion neu bwrpas y cynllun a'r broblem y mae'n ei hachosi y mae angen ei datrys h.y. y niwed y byddai'n ei achosi i gyfanrwydd Safle Cynefinoedd;
- Cam 2 – deall pam fod angen y cynllun;
- Cam 3 – a oes atebion eraill sy'n ymarferol yn ariannol, yn gyfreithiol ac yn dechnegol;
- Cam 4 – a oes atebion eraill a allai gael llai o effaith ar gyfanrwydd y Safle Cynefinoedd?

Bydd amcanion yr DPC niwclear fel yr amlinellwyd yn wreiddiol yn cynnig amlinelliad o'r atebion eraill y dylid eu hystyried. Mewn rhai achosion, gall dewisiadau eraill amrywiol gyflawni'r un amcan cyffredinol, ond yn gyffredinol mae'r ystod o opsiynau eraill yn cael eu

[26] Tyldesley, D. a Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, rhifyn Mehefin 2021 y DU: DTA Publications Limited.

cwtogi gan y ffin sy'n cael ei chreu gan yr amcanion, e.e. ni fyddai atebion eraill ar gyfer traffordd newydd fel arfer yn cynnwys asesu dulliau trafnidiaeth eraill[20].

Ar y cam strategol hwn, nid yw'n bosibl diffinio 'problem' benodol gan mai ar lefel uchel a rhagofalus i raddau helaeth y nodir risgiau i gyfanrwydd y Safleoedd Cynefinoedd. Bydd opsiynau eraill yn cael eu hystyried yn ystod cam prosiect unrhyw ddatblygiad technoleg niwclear sy'n codi.

Fel cynllun, mae'r dewisiadau eraill yn lle'r DPC niwclear a fydd yn cael eu trafod yn Adroddiad yr ARhC yn seiliedig ar amrywiadau sy'n cael eu cyflwyno yn y DPC, fel sy'n cael eu nodi gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net a'u hamlinellu yn yr Ardal Chwilio. Trafodir i ba raddau y bydd pob amrywiad yn effeithio ar gyfanrwydd Safleoedd Cynefinoedd, gan gynnwys yr opsiwn 'gwneud dim', na fyddai'n golygu na fyddai unrhyw DPC. Bydd asesu'r 'dewisiadau eraill' hyn yn helpu i benderfynu a ydynt yn 'ddewisiadau ymarferol'. Mae angen i opsiynau eraill fod yn ymarferol yn gyfreithiol, yn ariannol ac yn dechnegol. Yn y pen draw, bydd opsiynau eraill yn cael eu hystyried *"i'r graddau sy'n bosibl ar sail manylder y cynllun"*[27].

## Gwneud Achos Rhesymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i'r Cyhoedd

Ar yr amod y gellir dangos nad oes unrhyw atebion eraill ymarferol (h.y. mae'r prawf cyntaf wedi'i fodloni) a lle mae effeithiau niweidiol yn parhau ar Safle Cynefinoedd, bydd yr asesiad yn symud ymlaen i'r ail brawf, sy'n ceisio sefydlu a oes Rhesymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i'r Cyhoedd. Mae'r cam hwn yn ystyried a yw'r cynllun neu'r prosiect yn:

- **Hanfodol:** rhaid iddi fod yn hanfodol (boed ar frys neu fel arall), wedi'i bwyso yng nghyd-destun yr elfennau eraill isod, bod y cynllun neu'r prosiect yn mynd rhagddo;
- **O Fudd Amlwg:** mae'r budd sy'n cael ei gynnig gan y cynllun neu'r prosiect yn fwy na'r niwed (neu'r risg o niwed) i gyfanrwydd y safle fel y nodir yn yr asesiad priodol. Yn y cyd-destun hwn, mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn datgan ei bod yn rhesymol tybio mai dim ond os yw o 'fudd tymor hir' y gall y buddiant fod 'o fudd hirdymor';
- **Er budd y cyhoedd:** rhaid darparu budd cyhoeddus yn hytrach na budd preifat yn unig.

Hefyd, bydd angen penderfynu ar y pryd hwn a fydd effaith ar unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau sy'n flaenoriaeth i Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae hyn yn effeithio ar y mathau o resymau y gallai'r awdurdod cymwys eu hystyried. Fel arall, fel yr amlinellir yn Adran 2.1, mae angen barn yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol neu'r Gweinidogion perthnasol yng Nghymru.

## Sicrhau Iawndal

Os bodlonwyd y ddau brawf cyntaf ac nad oes atebion amgen ymarferol a bod Rhesymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i'r Cyhoedd, yna mae angen nodi a sicrhau mesurau cydbwyso. Mae angen i'r mesurau wrthbwyso'n llawn y difrod a fydd yn cael ei achosi neu a allai gael ei achosi. Gallai hyn gynnwys creu neu ail-greu cynefinoedd tebyg, a fydd, os nad ydynt eisoes yn rhan o'r Safle Cynefinoedd, yn cael eu dynodi'n Safle Cynefinoedd yn y pen draw. Bydd angen gweithio gyda'r corff cadwraeth natur statudol perthnasol i nodi, cynllunio a sicrhau mesurau cydbwyso addas. Ni ddylai'r mesurau cydbwyso eu hunain gael effaith negyddol ar y rhwydwaith cenedlaethol o Safleoedd Cynefinoedd yn ei chyfanrwydd.

[27] Gweler paragraff 49 Barn yr Eiriolwr Cyffredinol yn Achos C-6/04 EC v UK (2005)

Rhaid i'r awdurdod cymwys fod yn hyderus y bydd yr iawndal a gynigir yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir ac y dylai ystyried y canlynol:

- A yw'r iawndal arfaethedig yn ymarferol yn dechnegol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth wyddonol gadarn?
- A oes cynllun cyflenwi a rheoli cadarn ar waith drwy gydol y cyfnod?
- Ble mae'r iawndal arfaethedig mewn perthynas â'r safle yr effeithir arno? A yw hyn yn effeithio ar ei effeithiolrwydd?
- Faint o amser sydd ei angen er mwyn i'r iawndal gyrraedd yr ansawdd gofynnol?
- A yw'r fethodoleg a gynigir yn rhesymol neu wedi'i phrofi'n dechnegol?
- A yw'r mesurau'n gynaliadwy yn y tymor hir? A fydd angen sicrhau rheolaeth hirdymor?

Rhaid i'r awdurdod priodol, h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol neu Weinidog Cymru, sicrhau'r mesurau cydbwyso angenrheidiol i sicrhau y diogelir cydlyniad y rhwydwaith cenedlaethol o Safleoedd Cynefinoedd. Y broses gydsynio ar gyfer prosiectau unigol fydd y mecanwaith ar gyfer gwarantu iawndal.

Mae natur strategol a lefel uchel yr asesiad hwn yn golygu mai iawndal generig yn hytrach nag iawndal penodol fydd yn cael ei amlinellu ar y cam hwn. Heb effeithiau diffiniedig, nid yw'n bosibl pennu pa fesurau cydbwyso fydd eu hangen ac i ba raddau y mae angen eu defnyddio. Mae unrhyw iawndal felly'n benodol i bob prosiect ac mae angen ei archwilio a'i gynllunio'n llawn yn yr ARhC ar lefel y prosiect.

# Paratoi Adroddiadau ARhC y DPC

## Dull o Baratoi Adroddiadau

Ysgrifennwyd yr Adroddiad Methodoleg hwn ar sail polisi gosod safleoedd niwclear arfaethedig nad yw'n cynnwys lleoliadau (EN-7), y mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn ymgynghori yn ei gylch, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ddaearyddol nac yn enwebu safleoedd.

Os bydd polisi'r llywodraeth ar gyfer y DPC niwclear newydd yn newid yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd hyn yn cael sylw yn Adroddiad yr ARhC, yn y fethodoleg a'r adran sy'n disgrifio fformat y DPC fel y 'cynllun' sy'n cael ei asesu.

Bydd yr Adroddiad Methodoleg hwn yn rhagflaenu Adroddiad yr ARhC a bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal arno a bydd fersiwn terfynol yn cael ei gynhyrchu ar ôl rhoi sylw i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Strwythur Adroddiad yr ARhC

Bydd strwythur adroddiad yr ARhC fel a ganlyn yn fras:

- Crynodeb annhechnegol;
- Pennod 1 – Cyflwyniad – yn nodi pwrpas a chefndir y DPC newydd ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear;
- Pennod 2 – Mae'r DPC ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear yn rhoi manylion am gynnwys y DPC newydd;
- Pennod 3 – Proses a Chymwysiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – mae'n trafod y ddeddfwriaeth a'r fethodoleg sylfaenol;
- Pennod 4 – Cyn Sgrinio'r DPC newydd – yn nodi pa elfennau o'r DPC y gellir eu hepgor o'r sgrinio (i'w benderfynu ar ôl adolygu'r drafft);
- Pennod 5 – Canlyniadau Sgrinio'r ARhC;
- Pennod 6 – Asesiad Priodol DPC ar lefel Strategol;
- Pennod 7 – Asesiad Cyfunol;
- Pennod 8 – Mesurau Lliniaru;
- Pennod 9 - Yn trafod y rhanddirymiadau; atebion eraill, creu'r achos dros y Rhesymau Hanfodol sydd o Fudd Amlwg i'r Cyhoedd a sicrhau iawndal; a,
- Pennod 10 – Casgliad.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/government/consultations/approach-to-siting-new-nuclear-power-stations-beyond-2025

Os ydych angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, e-bostiwch alt.formats@energysecurity.gov.uk. Rhowch wybod i ni ym mha fformat mae angen y ddogfen arnoch chi. Bydd yn help i ni os dywedwch chi pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.